Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
IS-ADRAN TWRISTIAETH

YMGYNGHORIAD AR YR ARWEINIAD DIWYGIEDIG A WNAED O DAN ADRAN 182 DEDDF TRWYDDEDU 2003

Dyddiad: Ionawr 2007

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan DCMS yn:

www.culture.gov.uk

Dylid ymateb erbyn 11 Ebrill naill ai trwy anfon gohebiaeth at:

Simon Richardson
Tîm Adolygu Arweiniad Trwyddedu
Is-adran Twristiaeth
6ed Llawr
Yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
2-4 Cockspur Street
Llundain
SW1Y 5DH

Neu trwy anfon e-bost at:

licensingconsultation@culture.gov.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad ar yr Arweiniad diwygiedig gallwch gysylltu â'r Tîm Adolygu Arweiniad Trwyddedu yn y cyfeiriad uchod neu drwy ffonio 020 7211 6322 neu 020 7211 6380

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu gwynion ynglŷn â'r broses o ymgynghori ynghylch y papur hwn, fodd bynnag, dylech gysylltu â Liz Sweet, Cydlynydd Ymgynghori, Is-adran Strategaeth, Yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, 2-4 Cockspur Street, Llundain SW1Y 5DH.
liz.sweet@culture.gsi.gov.uk

Rhyddid Gwybodaeth

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad, ynghyd â chopïau o'r holl ymatebion a dderbyniwyd, ar gael ar wefan DCMS o fewn tri mis i gwblhau'r ymgynghoriad. Rhagdybir felly, y bydd eich ymateb ar gael i'w weld gan y cyhoedd. Ar ben hynny, gall yr holl wybodaeth a gynhwysir yn yr ymatebion, fod yn destun ei chyhoeddi neu ei datgelu o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Os yw gohebydd yn gofyn am gyfrinachedd, ni ellir gwarantu hynny a bydd hynny ond yn bosib os bernir ei fod yn briodol o dan y ddeddfwriaeth. Dylai unrhyw gais o'r fath esbonio pam fod cyfrinachedd yn angenrheidiol. Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried fel cais o'r fath oni bai eich bod yn benodol yn cynnwys cais, gydag eglurhad, ym mhrif destun eich ymateb.

CWESTIYNAU

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno na ddylid newid yr Arweiniad cyfredol ar gyffiniau?

Cwestiwn 2: Os nad ydych, pa ffactorau yn eich barn chi y dylid eu hystyried a pham?

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno y dylid newid yr Arweiniad cyfredol ar gerddoriaeth gefndir i ehangu ar y ffactorau y gellid eu hystyried gan yr awdurdodau trwyddedu wrth benderfynu ar yr hyn sy'n gyfystyr â cherddoriaeth gefndir?

Cwestiwn 4: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny ac amlinellwch unrhyw ddewisiadau amgen.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno na ddylid newid yr Arweiniad cyfredol ar bolisïau effaith cronnus?

Cwestiwn 6: Os nad ydych, pa newidiadau y dylid eu gwneud, a pham?

Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno y dylai'r casgliad o amodau yn Atodiadau D-H fod fel a ganlyn:

Opsiwn 1: Tynnu o'r Arweiniad cyfredol, ond ystyried sefydlu ffynhonnell ganolog amgen o gyngor arfer da? Neu

Opsiwn 2: Cadw a diweddaru/ehangu yn ôl yr angen.

Cwestiwn 8: A ydych o'r farn fod yno opsiynau eraill y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 9: A ydych o'r farn, os cedwir y casgliad o amodau bod perygl cynyddol y cânt eu gweld fel rhestr gynhwysfawr ac felly'n rhwystro hyrwyddo amodau arloesol gan yr heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill a phartïon sydd â diddordeb er mwyn ymdrin â phroblemau sy'n dod i'r amlwg. Os felly, rhowch resymau?

Cwestiwn 10: A ydych o'r farn bod gwerth i'r casgliad o amodau wrth hyrwyddo cysondeb a/neu gwerth gorau?

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno y dylid darparu mwy o eglurder yn yr arweiniad cyfredol ar rôl cynghorwyr ward a'i ehangu yn unol â'r hyn a gynigir?

Cwestiwn 12: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny a rhowch fanylion cryno am unrhyw gynnig amgen.

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r arweiniad ar awdurdodi gwerthiant?

Cwestiwn 14: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno y dylid addasu'r Arweiniad ar amrywiadau yn unol â'r hyn a gynigir?

Cwestiwn 16: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny.

Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno na ddylid newid yr Arweiniad ar dystiolaeth i gefnogi cyflwyniadau?

Cwestiwn 18: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny.

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu arweiniad ar sut y gallai awdurdodau trwyddedu reoli pryderon ynghylch bygythiadau posib i bartïon sydd â diddordeb?

Cwestiwn 20: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny.

Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno y dylid egluro/ehangu'r arweiniad ar reoli niwsans/trosedd ac anhrefn y tu allan i fangre trwyddedig yn unol â'r hyn a gynigir?

Cwestiwn 22: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny.

Cwestiwn 23: A ydych yn cytuno y dylid addasu'r Arweiniad ar oriau hirach i adlewyrchu llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol ar 30 Medi 2005 a'r sefyllfa gyfredol?

Cwestiwn 24: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny ac amlinellwch unrhyw opsiynau amgen.

Cwestiwn 25: A ydych yn cytuno y dylid dileu Pennod 11, sy'n egluro pwerau'r heddlu i gau mangre, o'r Arweiniad a'i hymgorffori mewn cyngor penodol ac ar wahân ar gyfer swyddogion yr heddlu?

Cwestiwn 26: Os nad ydych yn cytuno, esboniwch y rhesymau am hynny.

Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno y dylid dileu Penodau 12 (Gwerthu a Chyflenwi alcohol i blant) a 14 (Troseddau Eraill) o'r Arweiniad?

Cwestiwn 28: Os nad ydych yn cytuno, esboniwch y rhesymau am hynny.

Cwestiwn 29: Ar ydych yn hapus â ffurf gyffredinol yr Arweiniad diwygiedig?

Cwestiwn 30: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny a pha ffurf fyddai'n wel gennych ei gweld.

Cwestiwn 31: A oes yno unrhyw faterion eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu trin yn yr Arweiniad diwygiedig? Os oes, rhowch fanylion.

1. Cyflwyniad a throsolwg

1.1 Derbyniodd Deddf Trwyddedu 2003 ('y Ddeddf') Cydsyniad Brenhinol ar 10 Gorffennaf 2003 a daeth i rym ar 24 Tachwedd 2005. Yr oedd yn disodli chwe chyfundrefn trwyddedu bresennol yn ymwneud â gwerthu a chyflenwi alcohol, adloniant cyhoeddus, sinemâu, caffis nos a lluniet hwyr y nos gyda system rheoleiddio unedig.

1.2 Mae Adran 182(1) Deddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi Arweiniad i awdurdodau trwyddedu ar gyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae Adran 182(3) y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r arweiniad trwyddedu o dro i dro.

1.3 Bwriad yr Arweiniad yw cynorthwyo awdurdodau trwyddedu i gyflawni eu swyddogaethau o dan Ddeddf 2003 a sicrhau lledaeniad arfer gorau, gan sicrhau defnydd cyson o bwerau trwyddedu gan awdurdodau trwyddedu a hyrwyddo tegwch, triniaeth gyfartal a chymesuredd. Mae Adran 4(3)(b) y Ddeddf yn darparu bod angen i awdurdod trwyddedu, wrth gyflawni swyddogaethau trwyddedu ystyried yr Arweiniad a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 182 y Ddeddf.

1.4 Cyhoeddwyd a dosbarthwyd yr Arweiniad am y tro cyntaf i awdurdodau trwyddedu yng Ngorffennaf 2004. Ar 1 Rhagfyr 2005, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon mai bwriad y Llywodraeth oedd cynnal adolygiad dau gam o'r Arweiniad: cam cychwynnol wedi'i gyfyngu i gae eglurder ynghylch materion nad oeddent yn ddadleuol a gafodd eu codi gyda'r Llywodraeth yn ystod cyfnod trosiannol y Ddeddf; ac adolygiad llawn yn arwain at gyhoeddi Arweiniad cyflawn, diwygiedig.

1.5 Mae'r Llywodraeth yn chwilio am farn ar yr Arweiniad diwygiedig drafft yn yr Atodiad. Wrth ystyried unrhyw newid i'r Arweiniad cyfredol, mae'n bwysig deall na ellir defnyddio'r Arweiniad i geisio newid y ddeddfwriaeth sylfaenol neu reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2003. Felly dylai'r rhai sy'n ymgynghori gydnabod na fydd y Llywodraeth yn gallu rhoi ystyriaeth i ymatebion sy'n delio â materion y gellir eu trin yn unig drwy ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth.

2. Adolygiad cychwynnol o'r Arweiniad

2.1 Cyfyngwyd cwmpas yr adolygiad cychwynnol i'r canlynol:

- darparu eglurder ynghylch, ac ychwanegiadau i'r arweiniad presennol mewn ardaloedd lle'r oedd yno gonsensws cyffredinol ymysg rhanddeiliaid;
- atgyfnerthu cyngor a roddir mewn gohebiaeth swyddogol, newyddlen trwyddedu, ayb, yn ystod y cyfnod trosiannol; a
- chywiro camgymeriadau ffeithiol syml a diweddaru cyfeiriadau.

2.2 Oherwydd y consensws cyffredinol a ddaeth yn amlwg yn ystod y cyfnod trosiannol o gwmpas y materion hyn, penderfynodd yr Adran nad oedd angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar y diwygiadau cyfyngedig. Fodd

bynnag, cynhaliwyd deialog trwy gydol yr adolygiad gyda rhanddeiliaid allweddol, gan roi cyfle i bob un gyflwyno eu barn ar sut y dylid addasu'r Arweiniad cyfredol.

2.3 Daeth yr adolygiad cychwynnol i ben gyda chyhoeddi Arweiniad Ategol a ddaeth i rym ar 22 Mehefin 2006, pan y'i rhoddwyd gerbron Senedd San Steffan, a'i gyhoeddi ar wefan DCMS[1].

3. Adolygiad llawn o'r Arweiniad

3.1 Yr oedd adolygiad llawn yr Arweiniad, a gychwynnwyd ym Mai eleni, yn ymdrin â dau faes: materion polisi sylweddol a ffurf ac arddull y ddogfen Arweiniad.

Materion polisi

3.2 Yn ystod yr adolygiad cychwynnol o'r Arweiniad, cododd rhanddeiliaid nifer o faterion sylweddol gyda ni, megis y diffiniad o 'yng nghyffiniau', a oedd yn rhy ddadleuol a/neu cymhleth i'w cyfeirio heb ymgynghoriad llawn. Cafodd y materion hyn eu cario ymlaen i'r adolygiad llawn ac fe'u hystyrir mewn manylder yn adran 4 isod, ynghyd ag argymhellion y Llywodraeth ym mhob achos.

Fformat

3.3 Dywedodd rhanddeiliaid wrthym eu bod o'r farn bod yr Arweiniad yn rhy faith ac, mewn mannau, yn ailadroddus ac anhylaw. Un o brif nodau'r Adolygiad llawn oedd ailymweld â ffurf yr Arweiniad er mwyn cynhyrchu dogfen mwy hylaw, cryno a hwylus i'r defnyddiwr.

Rôl y Grŵp Ymgynghorol Trwyddedu a'r is grŵp yn yr Adolygiad o'r Arweiniad

3.4 Sefydlwyd y Grŵp Ymgynghorol Trwyddedu yn wreiddiol i gynorthwyo swyddogion DCMS i hysbysu Gweinidogion ynghylch cynnwys y Mesur Trwyddedu, yr Arweiniad gwreiddiol a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae'n cynnwys bron i ddeg ar hugain o randdeiliaid trwyddedu sy'n cynrychioli ystod eang o ddiddordebau yn cynnwys Llywodraeth leol, y fasnach a chyrff proffesiynol.

3.5 Ym Mai 2006, ffurfiodd DCMS is grŵp o'r Grŵp Ymgynghorol i gynorthwyo gyda'r adolygiad o'r Arweiniad. Mae'r is grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Cymdeithas Siopau Hwylus
Association of London Government
Y Gymdeithas Adloniant Bar a Dawns
Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
Pwyllgor Cymdeithasau Clybiau Cofrestredig
Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol

---

1 http://www.culture.gov.uk/Reference_library/Publications/archive_2006/revisedguide_section182.htm

Arts Council England
Cymdeithas Clercod Ynadon

Cyfetholwyd y canlynol hefyd yn aelodau o'r is grŵp:

- yr Ymddiriedolaeth Ddinesig, Action with Communities in Rural England a Ffederasiwn Busnesau Bach er mwyn sicrhau bod buddiannau rhanddeiliaid allweddol, megis grwpiau preswylwyr a neuaddau pentref, yn cael eu cynrychioli; a
- swyddog trwyddedu un o'r 'Cynghorau Craffu' [2] trwyddedu i ddarparu safbwynt ymarferwyr trwyddedu

3.6 Rhoddodd yr is grŵp ystyriaeth fanwl i'r materion sylweddol a drafodir isod a ffurf yr Arweiniad gan gyflwyno argymhellion i'r Grŵp Ymgynghorol llawn ar 7 Gorffennaf. Mae'r cynigion a nodir isod wedi'u llywio gan yr argymhellion hyn.

4. Materion sylweddol

Diffiniad o 'yng nghyffiniau'

4.1 Mae'n rhaid i barti sydd â diddordeb fel y'i diffinnir yn adrannau 13 a 69 Deddf 2003 naill fyw "yng nghyffiniau" neu fod yn unigolyn sy'n ymwneud â busnes "yng nghyffiniau" y fangre sy'n gwneud cais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb neu fod yn gorff sy'n cynrychioli unigolyn sy'n byw neu sy'n ymwneud â busnes "yng nghyffiniau" y fangre. Mae hyn yn cyfyngu ar y rhai sy'n gallu gwneud cyflwyniadau ynghylch cais am ganiatáu neu amrywio neu amrywio trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb; ac mae'n rhoi'r hawl i unigolyn wneud cas am adolygu trwydded neu dystysgrif o'r fath.

4.2 Nid yw 'yng nghyffiniau' yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf neu'r rheoliadau. Mae paragraff 5.33 o'r Arweiniad cyfredol yn awgrymu rhai ffactorau y dylai Awdurdodau Lleol eu hystyried wrth benderfynu ar gyffiniau, ond nid yw'n dei diffinio. Nod yr Adran yw rhoi cymaint o le â phosib i awdurdodau trwyddedu wrth bennu cyffiniau yn ôl ffactorau lleol, gan adael y llysoedd fel y canolwr terfynol mewn anghydfod.

4.3 Yn yr adolygiad cychwynnol, mynegwyd peth cefnogaeth i ehangu ar y ffactorau y gallai Awdurdodau Lleol eu hystyried wrth benderfynu ar gyffiniau a'i hannog i beidio â diffinio'r term yn rhy gyfyng. Awgrym pellach oedd y dylai cyffiniau gynnwys llwybrau adref o fangre trwyddedig. Fodd bynnag, yr oedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn ffafrio cadw'r Arweiniad heb ei newid gan y byddai unrhyw ymgais arall i'w ddiffinio yn tanseilio hyblygrwydd lleol yn y maes.

[2] Yn Nhachwedd 2005, gwahoddodd DCMS gr□p cynrychioladol bychan o 10 awdurdod trwyddedu er mwyn helpu i fonitro a gwerthuso'r gyfundrefn trwyddedu newydd fel 'Cynghorau Craffu' trwyddedu, Mae adroddiad terfynol y cynllun i'w weld ar wefan DCMS, yn http://www.culture.gov.uk/what_we_do/Alcohol_adloniant/monitoring_and_evaluation/scrutiny_councils.htm

Cynnig

4.4 Ar ôl pwyso a mesur, mae'r Llywodraeth yn argymell na ddylid newid yr Arweiniad cyfredol.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno na ddylid newid yr Arweiniad cyfredol ar gyffiniau?

Cwestiwn 2: Os nad ydych, pa ffactorau yn eich barn chi y dylid eu hystyried a pham?

Cerddoriaeth gefndir

4.5 O dan baragraff 7 Atodlen 1 Deddf 2003, nid yw darparu adloniant sy'n cynnwys perfformiad cerddoriaeth byw neu chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio yn cael ei ystyried fel darparu adloniant wedi'i reoleiddio (ac felly'n drwyddedadwy) i'r graddau y mae'n gerddoriaeth "cefndir" i ryw weithgaredd arall nad yw ynddo'i hun yn adloniant neu'n gyfleusterau adloniant sy'n gofyn am drwydded.

4.6 Nid wy'r gair 'cefndir' yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf neu'r Rheoliadau, ond mae paragraff 5.18 o'r Arweiniad cyfredol yn rhoi rhyw arwydd o'r ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu a yw cerddoriaeth yn gerddoriaeth gefndir neu beidio, megis lefel y sain, ac fe roddir rhai enghreifftiau. Er bod y cwestiwn o'r hyn yw cerddoriaeth 'gefndir' yn bwnc dadleuol, yn ystod yr adolygiad cychwynnol yr oedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn cytuno na fyddai'n ddefnyddiol rhoi diffiniad cyfyng neu ddarparu enghreifftiau, oherwydd bydd yno eithriad yn aml i'r rheol. Fodd bynnag, awgrymodd rhai rhanddeiliaid mai buddiol fyddai ehangu'r arweiniad ar ffactorau y gellid eu hystyried (neu eu diystyru) wrth bennu a yw cerddoriaeth yn gerddoriaeth gefndir neu beidio.

Cynnig

4.7 Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid addasu'r arweiniad cyfredol ar gerddoriaeth gefndir er mwyn ehangu ar y ffactorau y gallai awdurdodau trwyddedu eu hystyried wrth bennu beth sy'n gerddoriaeth gefndir neu beidio. Nodir y testun arfaethedig ym mharagraff 3.21 o'r Arweiniad diwygiedig.

Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r newid arfaethedig?

Cwestiwn 4: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny ac amlinellwch unrhyw ddewisiadau amgen

Polisïau effaith cronnus

4.8 Nid oes sôn am effaith cronnus yn y Ddeddf neu'r Rheoliadau, ond mae paragraff 3.13 o'r Arweiniad cyfredol yn ei ddiffinio fel yr 'effaith posibl a gaiff nifer sylweddol o fangreoedd trwyddedig sydd wedi'u crynhoi mewn un ardal ar hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu'. Mae paragraffau 3.14-3.27 yn darparu

arweiniad pellach ar greu a chyfyngu ar bolisïau arbennig.

4.9 Dywedodd rhai rhanddeiliaid yr hoffent weld polisïau arbennig yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen mewn ardaloedd ar wahân i ganol trefi a dinasoedd megis maestrefi neu ganolfannau siopa ardal. Cafwyd peth cefnogaeth hefyd i eangu'r cwmpas i gynnwys mangreoedd gwerthu oddi ar y safle megis siopau cornel ayb, oherwydd tybiwyd y gallent hefyd gyfrannu at effaith cronnus.

4.10 Mynegwyd barn hefyd y gallai'r Arweiniad annog awdurdodau trwyddedu i gymryd camau eraill, mewn partneriaeth â'r fasnach a rhanddeiliaid eraill, i ddelio ag effaith cronnus cyn iddynt ystyried defnyddio polisi arbennig. Fe allai hyn gynnwys polisi gwasgaru ar gyfle clybiau, wardeiniaid ysbwriel a thacsi a chynlluniau heddlu megis 'Best Bar None'.

4.11 Ar lefel mwy elfennol cred rhai rhanddeiliaid bod effaith cronnus fel polisi yn mynd y tu hwnt i'r Ddeddf a'i fod felly yn *ultra vires*.

Cynnig

4.12 Ar ôl pwyso a mesur, mae'r Llywodraeth yn argymell na ddylid newid yr Arweiniad cyfredol.

4.13 Nid oes dim yn yr Arweiniad i atal sefydlu polisïau arbennig ar gyfer ardaloedd ar wahân i ganol trefi a dinasoedd ac, er bod yr Arweiniad yn nodi na fyddai modd 'fel arfer' cyfiawnhau mabwysiadu polisi arbennig ar gyfer gwerthu oddi ar y fangre, mae ymhlyg y gellid cyfiawnhau hynny mewn amgylchiadau eithriadol.

4.14 Mae paragraff 3.17 o'r Arweiniad yn ei gwneud yn glir bod angen tystiolaeth fel sail ar gyfer mabwysiadu polisi arbennig. Mae paragraff 3.28 yn cydnabod bod yno ddulliau gweithredu eraill i reoli effaith cronnus.

4.15 Byddai dileu'r cysyniad o effaith cronnus o'r Arweiniad yn hynod broblemus ac yn tarfu ar amryw o awdurdodau trwyddedu sydd eisoes wedi mabwysiadu polisi arbennig ac awdurdodau sydd yn ystyried gwneud hynny. Nid oes tystiolaeth bod ystod eang o randdeiliaid yn wrthwynebus i'r cysyniad o effaith cronnus.

Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno na ddylid newid yr Arweiniad cyfredol ar bolisïau effaith cronnus?

Cwestiwn 6: Os nad ydych, pa newidiadau y dylid eu gwneud, a pham?

<u>Amodau</u>

4.16 Mae Pennod 7 o'r Arweiniad yn darparu cyngor cyffredinol a'r amodau y gellir eu rhoi ar drwyddedau. Mae Atodiadau D-H yn darparu casgliad o amodau y gellid eu defnyddio wrth hyrwyddo pob un o'r pedwar amcan trwyddedu ac mewn theatrau, sinemâu, neuaddau cyngerdd a mannau tebyg (Atodiad F) lle maent yn

briodol ac angenrheidiol. Y pedwar amcan trwyddedu statudol yw:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans i'r cyhoedd
- Diogelu plant rhag niwed.

4.17 Dywedodd rhai rhanddeiliaid wrthym nad oedd cynnwys casgliad o amodau yn yr Arweiniad yn annog awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol fel yr heddlu i ddatblygu amodau arloesol eraill, ac yn annog dyblygu gofynion statudol eraill (yn enwedig o ran iechyd a diogelwch). Mae'n ymddangos bod yno risg posib o bwyllgorau trwyddedu a llysoedd ynadon yn gynyddol yn trin y rhestr fel un unigryw a bod y gronfa o amodau yn methu ymateb i ddatblygiadau newydd a thueddiadau o fewn economi gyda'r hwyr. Ar y sail yma, awgrymir y dylid dileu'r Atodiadau hyn o'r Arweiniad.

4.18 Barn arall yw bod angen ffynhonnell ganolog o gyngor ac arweiniad ar awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol ar ddefnyddio a thelerau amodau (yn enwedig yr amodau hynny sy'n cael eu hystyried fel arfer gorau neu arfer da) a bod hyn yn annog dull gweithredu cyson ar draws awdurdodau. Felly dylid cadw'r Atodiadau gan eu diweddaru a'u hehangu yn ôl yr angen gydag ychwanegiadau pellach a rheolid o bosib i'r Arweiniad.

4.19 Felly mae'r Llywodraeth yn chwilio am farn ar yr opsiynau canlynol:

Cynnig

Opsiwn 1: Tynnu Atodiadau D-H o'r Arweiniad, ond ystyried sefydlu ffynhonnell ganolog amgen o gyngor at dibenion arfer da.

Opsiwn 2: Cadw Atodiadau D-H o'r Arweiniad a diweddaru/ehangu yn ôl yr angen gan ychwanegu i'r Arweiniad yn rheolaidd.

Cwestiwn 7: Gyda pha un o'r opsiynau hyn yr ydych yn cytuno?

Cwestiwn 8: A ydych o'r farn fod yno opsiynau eraill y dylid eu hystyried?

Cwestiwn 9: A ydych o'r farn, os cedwir y casgliad o amodau bod perygl cynyddol y cânt eu gweld fel rhestr gynhwysfawr ac felly'n rhwystro hyrwyddo amodau arloesol gan yr heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill a phartïon sydd â diddordeb er mwyn ymdrin â phroblemau sy'n dod i'r amlwg. Os felly, rhowch resymau?

Cwestiwn 10: A ydych o'r farn bod gwerth i'r casgliad o amodau posib wrth hyrwyddo cysondeb a/neu gwerth gorau?

<u>Rôl cynghorwyr yn y broses trwyddedu</u>

4.20 Ar hyn o bryd, mae paragraff 5.32 o'r Arweiniad yn datgan y gal cynghorwyr gynrychioli eu hunain fel parti sydd â diddordeb neu wneud cyflwyniadau fel parti sydd â diddordeb eu hunain os ydynt yn byw yng nghyffiniau mangre trwyddedig (ar yr amod nad ydynt yn cyfranogi yn y broses o wneud penderfyniad).

4.21 Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yma yn ddarostyngedig i weithrediad y cod ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdod lleol. Mae'r cod yn nodi lle mae gan gynghorydd ddiddordeb niweidiol mewn mater, yna mae'n ofynnol iddo gilio o'r cyfarfod lle trafodir y mater. Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn bwriadu ymgynghori ar god ymddygiad diwygiedig, yn cynnwys newidiadau posib i'r rheolau sy'n ymwneud â diddordeb niweidiol yn ddiweddarach eleni.

4.22 Ar ben hyn, mae gan gynghorwyr ddyletswydd i weithredu er budd pob un o'u hetholwyr. Felly mae'n rhaid cael cydbwysedd rhwng y rôl yma fel adfocad cymunedol â'r arweiniad uchod y gall cynghorydd weithredu fel parti sydd â diddordeb ar gyfer mangre trwyddedig.

4.23 Hoffai rhanddeiliaid weld arweiniad pellach er mwyn:

a) cael eglurder ynghylch rôl cynghorwyr ward yn y broses drwyddedu, gan roi ystyriaeth i faterion diddordeb niweidiol, fel nodwyd uchod;

b) sicrhau cynghorau bod caniatâd i hysbysu cynghorwyr o geisiadau, adolygiadau, ayb. yn eu wardiau o dan y ddeddfwriaeth gyfredol.

4.24 Mae nifer o gynghorau yn hysbysu cynghorwyr yn awtomatig o geisiadau trwyddedu yn eu wardiau, er nad yw hyn yn ofyniad cyfreithiol. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau trwyddedu wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n awgrymu y gellid dadlau fod yr arfer yma yn gyfystyr â 'deisyf' cyflwyniadau ac o'r herwydd efallai ei fod yn anghyfreithlon.

Cynnig

4.25 Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid addasu'r Arweiniad er mwyn:

- cael eglurder pellach ynghylch rôl cynghorwyr yn y broses drwyddedu a nodi le mae gan aelod ddiddordeb niweidiol mewn mater y gallai aelod o'r cyhoedd ystyried yn rhesymol ei fod yn ddigon arwyddocaol i niweidio barn yr aelod o fudd y cyhoedd, yna dylai'r aelod, o dan y cod ymddygiad i aelodau gilio o'r cyfarfod lle trafodir y mater;

- cynghori nad oes dim i atal awdurdodau trwyddedu rhag hysbysu cynghorwyr ward o geisiadau trwyddedu ar yr amod bod y wybodaeth a roddir yn gwbl ddiduedd. Mae pob cynghorydd ward yn aelod o'r awdurdod trwyddedu sef, yn y mwyafrif o achosion, y cyngor llawn ac o'r herwydd ni ellir mynegi gwrthwynebiad cyfreithiol i ddarparu'r wybodaeth berthnasol iddynt. Dylai'r Arweiniad hefyd ei gwneud yn glir nad yw hyn yn ofyniad cyfreithiol o dan Ddeddf 2003 ac y byddai gofyn i'r awdurdodau dalu unrhyw gostau eu hunain. Nodir y newidiadau

arfaethedig ym mharagraffau 8.8-8.10 o'r Arweiniad diwygiedig yn Atodiad 3.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno y dylid darparu mwy o eglurder yn yr arweiniad cyfredol ar rôl cynghorwyr ward a'i ehangu yn unol â'r hyn a gynigir?

Cwestiwn 12: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny a rhowch fanylion cryno am unrhyw gynnig amgen.

Rôl Goruchwylwyr Dynodedig Mangre (DPS) a Deiliad Trwydded Bersonol (PLH)

4.26 O dan Ddeddf 2003, mae'n amod gorfodol ym mhob trwydded mangre sy'n awdurdodi gwerthu neu gyflenwi alcohol:

- bod gofyn awdurdodi pob gwerthiant o alcohol gan ddeiliad y drwydded bersonol; a
- bod angen nodi deiliad trwydded bersonol ar y drwydded mangre fel y goruchwyliwr dynodedig mangre

4.27 Mae paragraff 4.18 o'r Arweiniad cyfredol yn egluro mai prif ddiben y DPS yw sicrhau bod yno 'un unigolyn penodol' ar bob adeg ymysg (o bosib) sawl deiliad trwydded bersonol, y gellir eu hadnabod yn hwylus gan yr heddlu ac unigolion ag awdurdod yn y fangre a fydd fel arfer wedi derbyn cyfrifoldeb 'dydd i ddydd' am redeg y fangre. Mae'r Arweiniad ategol yn atgyfnerthu'r cyngor a roddwyd yn ystod y cyfnod trosiannol nad os angen i'r DPS neu unrhyw ddeiliad trwydded bersonol arall fod yn bresennol yn y fangre ar hyd yr adeg, ond fe all awdurdodi eraill yn ysgrifenedig neu ar lafar i werthu alcohol.

4.28 Mae llawer o randdeiliaid yn teimlo y dylid caniatáu awdurdod ysgrifenedig yn unig, gan fod awdurdod llafar fel arfer yn fater o air un person yn erbyn un arall ac felly yn anodd ei brofi mewn llys. Mae amryw o gymdeithasau masnachol eisoes yn cynghori eu haelodau i ddefnyddio awdurdod ysgrifenedig fel mater o arfer gorau.

Argymhelliad

4.29 Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid addasu'r Arweiniad ar awdurdodi gwerthiant ymhellach er mwyn:

- cynghori mai awdurdod ysgrifenedig a argymhellir gan ei fod yn dangos yn diwydrwydd dyladwy clir yn sgil unrhyw adolygiad neu erlyniad; ac yn
- egluro nad yw hyn yn ofyniad cyfreithiol ac nad oes agen i'r DPS fod yn bresennol yn y fangre ar hyd yr adeg.

4.30 Nodir y newidiadau arfaethedig ym mharagraffau 10.45-10.50 o'r Arweiniad diwygiedig.

Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r arweiniad ar awdurdodi gwerthiant?

Cwestiwn 14: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny.

Amrywiadau

4.31 Mae Adran 34 y Ddeddf yn caniatáu i ddeiliad trwydded mangre wneud cais i amrywio'r drwydded. Defnyddiodd paragraff 5.65 o'r Arweiniad gwreiddiol y gair amrywiad 'sylweddol' fel ffordd o ddisgrifio'r holl amrywiadau ac eithrio rhai sy'n ymwneud â newid enw neu gyfeiriad rywun a enwir mewn trwydded neu fanyleb goruchwyliwr dynodedig mangre . Mae'r ddau eithriad yma yn golygu proses ymgeisio symlach a ffi is.

4.32 Yn ystod yr adolygiad cychwynnol, dywedodd rhai rhanddeiliaid bod y defnydd o'r term "amrywiad sylweddol" yn ddryslyd gan ei fod yn awgrymu bodolaeth `gweithdrefn statudol benodol ar gyfer 'mân' amrywiadau yn ychwanegol i'r ddau eithriad a nodir uchod. Mae'r Arweiniad ategol yn egluro pam y defnyddir y gair 'sylweddol' yn yr Arweiniad, ond y farn gyffredinol yw nad yw'r term yn arbennig o ddefnyddiol. Yr oedd rhanddeiliaid hefyd eisiau mwy o arweiniad ar pryd yr oedd yn briodol gwneud cais am drwydded newydd yn hytrach na gofyn am amrywiad.

Cynnig

4.33 Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid addasu ac ehangu'r Arweiniad ar amrywiadau er mwyn:

- dileu'r term 'amrywiad sylweddol';
- egluro bod y ddau eithrid a amlinellir uchod yn destun proses ymgeisio symlach;
- egluro pryd y mae angen trwydded newydd yn hytrach nag amrywiad.

Nodir y newidiadau arfaethedig ym mharagraffau 8.31-8.35 o'r Arweiniad diwygiedig.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno y dylid addasu'r Arweiniad ar amrywiadau yn unol â'r hyn a gynigir?

Cwestiwn 16: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny.

Natur y dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi cyflwyniadau

4.34 Ar hyn o bryd nid yw'n ofyniad cyfreithiol i bartïon sydd â diddordeb i ddarparu tystiolaeth i gefnogi cyflwyniadau ac, wrth gwrs, yn achos mangre newydd, efallai

nad yw hynny'n bosib. Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid yn bryderus y gellir gosod amodau, er enghraifft ar sŵn, lle nad oes hanes o darfu mewn mangre bresennol. Mae eraill o'r farn y dylai cyflwyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth ym mhob achos er mwyn cwrs â'r prawf dilysrwydd a pherthnasedd i'r amcanion trwyddedu. Cafwyd awgrym hefyd y dylai'r Arweiniad gynnwys arweiniad i aelodau'r Pwyllgor trwyddedu ar benderfynu'r pwysau i'w roi ar gyflwyniadau o bob math.

Cynnig

4.35 Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd ceisiadau newydd o reidrwydd yn cynnwys elfen o ddamcaniaethu rhesymol ynghylch effaith tebygol gweithgareddau trwyddedadwy yn y fangre ar y pedwar amcan trwyddedu. Mae'r Arweiniad eisoes yn caniatáu ar gyfer effaith tebygol mangre newydd lle nad oes unrhyw hanes o sŵn a tharfu. Nid yw'n cyfyngu disgresiwn yr awdurdod trwyddedu i roi pwysau rhesymol a phriodol i gyflwyniadau a thystiolaeth yn dibynnu ar natur y cais. Mae hyn yn gyson ag adran 18(6)(a) y Ddeddf sy'n datgan bod cyflwyniadau perthnasol yn ymwneud ag 'effaith tebygol caniatáu trwydded mangre ar hyrwyddo'r amcanion trwyddedu'. Mae paragraff 5.68C o'r Arweiniad cyfredol yn datgan 'Wrth benderfynu ar y cais…mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi pwysau priodol i'r …cyflwyniadau (yn cynnwys gwybodaeth gefnogol) a gyflwynir gan bob parti'. Mae'r Llywodraeth o'r farn y dylid cynnwys unrhyw gyngor/arfer da pellach ar gefnogi cyflwyniadau gyda thystiolaeth dda yn yr arweiniad i bartïon sydd â diddordeb, yn hytrach na'r Arweiniad statudol ar gyfer awdurdodau trwyddedu.

4.36 Felly mae'r Llywodraeth yn argymell na ddylid newid yr Arweiniad cyfredol hwn ar dystiolaeth i gefnogi cyflwyniadau.

Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno na ddylid newid yr Arweiniad ar dystiolaeth i gefnogi cyflwyniadau?

Cwestiwn 18: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny.

<u>Cyflwyniadau: Datgelu enwau a chyfeiriadau</u>

4.37 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw bartïon sydd â diddordeb sy'n gwneud cyflwyniadau ddarparu eu henw a'u cyfeiriad. Mae rhai awdurdodau trwyddedu wedi adrodd am achosion eithriadol, lle mae preswylwyr yn amharod i wneud cyflwyniadau rhag ofn cael eu bygwth.

4.38 Mae awdurdodau trwyddedu wedi ymdrin â'r mater hyn mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, mae rhai yn annog y parti sydd â diddordeb i gysylltu â'r awdurdod cyfrifol perthnasol (er enghraifft, swyddogion iechyd yr amgylchedd) a gofyn iddynt hwy wneud cyflwyniadau ar eu rhan. Mae hynny'n golygu nad yw eu henw a'u cyfeiriad yn cael eu datgelu ar unrhyw bwynt yn y broses. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol fodloni ei hun bod angen cyflwyniadau a bod cyfiawnhad dros eu gwneud. Mae awdurdodau eraill yn annog preswylwyr i wneud eu cyflwyniadau, ond gan beidio datgelu eu henwau a'u cyfeiriadau i'r

ymgeisydd, gan roi manylion sy'n berthnasol i bennu'r lleoliad yn unig (megis enw stryd).

Cynnig

4. 39 Mae'r Llywodraeth o blaid addasu'r Arweiniad i gynnwys cyngor ar sut y gellir rheoli ofnau eithriadol o fygythiadau, gan roi enghreifftiau o'r strategaethau a amlinellir uchod. Nodir y newidiadau posib ym mharagraffau 9.13-9.17 o'r Arweiniad diwygiedig.

4.40 Y dewis arall fyddai peidio addasu'r Arweiniad a chydnabod bod y maes hwn yn un na ddylai'r Llywodraeth fod yn ceisio hyrwyddo dulliau gweithredu penodol er budd cysondeb; a chaniatáu'r disgresiwn mwyaf posib i awdurdodau trwyddedu weithredu mewn modd synhwyrol fel sy'n addas yn eu barn er les y gymuned.

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno y dylid addasu'r Arweiniad ar gyflwyniadau?

Cwestiwn 20: Os byddai'n well genych yr opsiwn a amlinellwyd ym mharagraff 4.40, esboniwch y rhesymau am hynny.

Rheoli niwsans/trosedd ac anhrefn y tu allan i fangre trwyddedig

4.41 Mae paragraff 3.11 o'r Arweiniad cyfredol yn ei gwneud yn glir bod trwyddedu yn ymwneud â rheoleiddio gweithgareddau trwyddedadwy ac nad deddfwriaeth trwyddedu yw'r prif ddull ar gyfer rheolaeth gyffredinol o niwsans ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan unigolion unwaith y maent oddi ar y fangre trwyddedig ac felly y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y deiliaid trwydded neu dystysgrif unigol. Fodd bynnag, mae'r Arweiniad hefyd yn datgan y bydd 'cyfreithiau trwyddedu bob tro'n rhan o'r ymagwedd gyfannol at reoli economi canol trefi a dinasoedd gyda'r nos ac yn ystod y nos'.

4.42 Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylai deiliaid trwydded fod yn gyfrifol am gymryd camau rhesymol i reoli yfed y tu allan i'w mangre, er enghraifft, ar y palmant y tu allan i dafarn neu mewn gardd gwrw ac am wasgaru trefnus cwsmeriaid pan yw'r fangre yn cau (efallai trwy bolisi gwasgariad). Awgrymwyd hefyd y dylai cynlluniau ddangos mannau ar gyfer yfed ac y gallai awdurdodau lleol allu gosod amodau ar y mannau hyn ar sail bod angen gwneud hynny er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

4.43 Fodd bynnag, nid oes mecanwaith yn Neddf 2003 ar gyfer gosod ffurfiau newydd o amodau cyffredinol ar drwyddedau mangre sydd eisoes yn bodoli ac ni ellid gosod amodau o'r fath, lle nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd, ond yn dilyn adolygiad o'r drwydded neu mewn perthynas â thrwydded mangre lle gwnaed cyflwyniadau. Yn unol â hynny, bydd o hyd yn debygol y bydd rhai trwyddedau mangre yn destun amodau o'r fath, a rhai trwyddedau mangre na fyddant yn destun amodau felly.

4.44 Mater rheoleiddio o dan bweru galluogol y Ddeddf yw cynnwys cynlluniau y

mae'n rhaid eu cynnwys gyda cheisiadau ar gyfer caniatáu neu amrywio trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb, ac nid mater y gellir ei newid gan Arweiniad.

Cynnig

4.45 Mae'r Llywodraeth o blaid darparu Arweiniad pellach ar yr hyn y gellir ei wneud o fewn y Ddeddf i reoli trosedd ac anhrefn y tu allan i fangre trwyddedig.

4.46 Mae'r Arweiniad eisoes yn caniatáu ar gyfer gosod amodau ar ddeiliaid trwydded i hyrwyddo trosedd ac anhrefn yn union y tu allan i fangre lle mae hyn yn ymwneud â gweithgareddau trwyddedadwy. Ar ben hynny, nid oes dim i atal yr heddlu, awdurdodau trwyddedu a'r diwydiant croesawiaeth rhag dod i gytundeb gwirfoddol ynghylch arfer gorau mewn meysydd lle mae problemau'n debygol o godi. Hefyd, mae adran 13 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001 eisoes yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol osod "gorchmynion man cyhoeddus dynodedig" (DPPO) i reoli yfed alcohol mewn man cyhoeddus y tu allan i fangre trwyddedig.

4.47 Fodd bynnag, efallai y byddai'n ddefnyddiol darparu eglurhad gwell yn yr Arweiniad o gyfrifoldeb cyfreithiol deiliaid trwydded i reoli mannau yng nghyffiniau eu mangre a datgan yn fwy manwl y gellir gwella problemau yng nghyffiniau'r fangre trwy osod amodau. Nodir y newidiadau posib ym mharagraff 1.23 o'r Arweiniad diwygiedig.

(NODER: Bydd angen ystyriaeth ofalus iawn ar union eiriad amodau o'r fath. Ni all amodau fod yn ddyheadol ac mae'n rhaid iddynt fod o fewn gallu deiliad y drwydded mangre i osgoi comisiynu trosedd. Er enghraifft, er y gallai amod ei gwneud yn ofynnol i fangre fabwysiadu polisi gwasgaru penodol, ni all y deiliad trwydded orfodi cwsmeriaid i'w ddilyn).

Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno y dylid addasu'r Arweiniad yn unol â'r hyn a gynigir?

Cwestiwn 22: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny.

<u>Paragraffau ar oriau hirach</u>.

4.48 Ar hyn o bryd mae'r Arweiniad yn nodi mewn sawl man bod amseroedd cau sefydlog a buan yn debygol o hyrwyddo goryfed mewn pyliau cyflym cyn amser cau a bod oriau hirach yn debygol o arwain at wasgaru cwsmeriaid yn fwy graddol o'r fangre trwyddedig. Fodd bynnag, mae'r Arweiniad hefyd yn pwysleisio y dylid ystyried pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun. Mewn rhai achosion, efallai na fydd oriau hirach yn help i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

4.49 Mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo fod yr Arweiniad cyfredol yn rhagdybio o blaid oriau hirach, a hynny heb unrhyw gyfiawnhad. Fodd bynnag, yr oedd barn ddiweddar yn achos R (ar gais J D Wetherspoon ccc) v Cyngor Bwrdeistref Guildford [2006] EWHC 815 (Admin) yn ymddangos fel pe bai yn cefnogi'r

safbwynt bod y cydbwysedd rhwng oriau hirach a hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel yr eglurwyd hynny yn yr Arweiniad cyfredol yn eithaf agos ati.

4.50 Ar 30 Medi 2005, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at bob awdurdod trwyddedu yn pwysleisio nad yw'r Ddeddf yn cynnwys rhagdybiaeth o blaid oriau hirach ac mai'r pedwar amcan trwyddedu ddylai fod flaenaf wrth ystyried cais trwyddedu. Mae'r Llywodraeth o blaid adlewyrchu telerau'r llythyr hwn yn yr Arweiniad.

Cynnig

4.51 Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid ailddrafftio'r paragraffau ar oriau hirach er mwyn adlewyrchu llythyr yr Ysgrifennydd Gwladol ar 30 Medi 2005 a bod yn fwy ffocysedig. Dylid gosod ychydig baragraffau byr ar y pwnc hwn mewn lle amlwg ar flaen yr Arweiniad. Dylai paragraffau hefyd adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol (h.y. nid ydym bellach yn y broses o symud o oriau 'sefydlog' i oriau 'hirach'). Mae'r testun arfaethedig wedi'i gynnwys ym mharagraffau 1.17-1.19, 10.18-10.20 a 13.34-13.36 o'r Arweiniad diwygiedig.

Cwestiwn 23: A ydych yn cytuno y dylid addasu'r Arweiniad ar oriau hirach yn unol â'r hyn a amlinellir uchod?

Cwestiwn 24: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny ac amlinellwch unrhyw opsiynau amgen

<u>Pennod 11: Pwerau'r Heddlu i gau mangre</u>

4.52 Mae'r Ddeddf yn cyfyngu ar bwrpas yr Arweiniad statudol i roi arweiniad i awdurdodau trwyddedu (ac nid yr heddlu) ynghylch cyflawni eu swyddogaethau trwyddedu o dan y Ddeddf. Cafodd Pennod 11 ei chynnwys yn yr Arweiniad - fel elfen anstatudol - i ddarparu cyngor i swyddogion yr heddlu ar weithrediad y pwerau cau newydd yn rhan 8 Deddf Trwyddedu 2003 sydd wedi ymestyn pwerau'r heddlu mewn rhai meysydd. Cwestiynwyd cymysgu Arweiniad statudol ac anstatudol gan Gyd-Bwyllgor Ty'r Cyffredin ar Offerynnau Statudol wrth graffu ar yr Arweiniad gwreiddiol ac mae'r adolygiad yn cynnig cyfle defnyddiol i ystyrid a ddylid ei gadw.

4.53 Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu nad yw Pennod 11 ar hyn o bryd yn gorwedd yn gyfforddus gyda gweddill yr Arweiniad sydd wedi ei anelu at awdurdodau trwyddedu. Awgrymwyd y gallai'r cyngor yma ffurfio rhan o arweiniad ehangach ar gyfer swyddogion yr heddlu ar blismona'r economi gyda'r nos, y mae trwyddedu yn rhan yn unig ohono.

Cynnig

4.54 Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid dileu Pennod 11 o'r Arweiniad o'r prif Arweiniad a'i hymgorffori yn y cyngor penodol i swyddogion heddlu ar ddelio â phroblemau mewn mangre trwyddedig a fydd yn cael ei ddatblygu gyda'r Swyddfa Gartref ac ACPO a'i ddosbarthu i bob gwasanaeth heddlu.

Cwestiwn 25: A ydych yn cytuno y dylid dileu Pennod 11 o'r Arweiniad?

Cwestiwn 26: Os nad ydych yn cytuno, esboniwch y rhesymau am hynny.

Pennod 12: Gwerthu a chyflenwi alcohol i blant
Pennod 14: Troseddau Eraill

4.55 Mae Pennod 12 o'r Arweiniad cyfredol yn disgrifio troseddau sy'n ymwneud â gwerthu a chyflenwi alcohol i blant, tra bo Pennod 14 yn disgrifio troseddau eraill o dan y Ddeddf.

4.56 Mae'r wybodaeth yn y penodau hyn yn tueddu i ailadrodd cynnwys y Ddeddf ei hun. Byddai hefyd yn anaddas i'r Llywodraeth roi Arweiniad ar fater erlyniadau Mae'n ofynnol i'r Adran Erlyniadau Cyhoeddus, awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau mesuriadau a phwysiadau ymarfer eu disgresiwn mewn perthynas ag erlyniadau yn annibynnol o'r Weithrediaeth. Felly mae yno achos da dros ddileu'r testun yma'n llwyr o'r Arweiniad statudol.

Cynnig

4.57 Mae'r Llywodraeth yn argymell y dylid dileu Penodau 12 a 14 o'r Arweiniad.

Cwestiwn 27: A ydych yn cytuno y dylid dileu Penodau 12 a 14 o'r Arweiniad?

Cwestiwn 28: Os nad ydych yn cytuno, esboniwch y rhesymau am hynny

5. **Ffurf yr Arweiniad**

5.1 Diwygiwyd ffurf yr Arweiniad yn sylweddol gyda'r bwriad o'i wneud yn fwy hwylus i'r defnyddiwr, yn fwy cryno ac yn haws pori ynddo. Ar wahân i'r awgrym i ddileu Penodau 11, 12 a 14 a nodwyd uchod, mae'r newidiadau allweddol fel a ganlyn:

- rhagair newydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
- pennod ragarweiniol newydd yn nodi amcanion ac egwyddorion y ddeddfwriaeth;
- pennod newydd ar y pedwar amcan trwyddedu gan ymgorffori llawer o'r wybodaeth o Bennod 7 y ddogfen wreiddiol ar Amodau;
- bydd Pennod 5 (Trwyddedau Mangre) y ddogfen wreiddiol yn cael ei rhannu'n bum Pennod newydd er hwylustod;
- bydd Pennod 3 y ddogfen wreiddiol ar Ddatganiadau Polisi Trwyddedu yn cael ei symud i gefn y ddogfen ddiwygiedig i adlewyrchu'r ffaith bod angen i gynghorau ddarllen y penodau blaenorol cyn pennu eu polisi trwyddedu.

Cwestiwn 29: A ydych yn hapus â ffurf gyffredinol yr Arweiniad diwygiedig yn Atodiad 3?

Cwestiwn 30: Os nad ydych, esboniwch y rhesymau am hynny a pha ffurf fyddai'n well gennych ei gweld.

6. Materion eraill

6.1 Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn ymdrin â materion allweddol a godwyd gyda'r Llywodraeth yng nghyswllt yr Arweiniad, ond efallai fod yno faterion eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu cynnwys yn y fersiwn diwygiedig. Dylai ymatebwyr nodi, fel nodwyd eisoes, ni ellir defnyddio'r Arweiniad i newid deddfwriaeth sylfaenol neu reoliadau a wnaed o dan Deddf 2003.

Cwestiwn 31: A oes yno unrhyw faterion eraill yr hoffech eu gweld yn cael eu trin yn yr Arweiniad diwygiedig? Os oes, rhowch fanylion.